*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 19 MEHEFIN 2017 yn SIAMBR CYNGOR SIR DDINBYCH, RHUTHUN, LL15 1YN yn syth ar ôl y cyfarfod blynyddol.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 20 Mawrth 2017**

5. **Materion yn Codi**

6. **Perfformiad Ariannol 2016-17**

7. **Dangosyddion Perfformiad Amcanol Anarchwiliedig 2016-17 (cyflwyniad)**

8. **Adroddiad Blynyddol o'r Dyledion Drwg a Ddilëwyd**

9. **Gwrthfawrogiad a Chwynion**

10. **Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru**

11. **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2016/17**

12. **Materion Brys**

    Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod..

## RHAN II

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mawrth 2017 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

Hefyd yn bresennol:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); C Nott (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu Dros Dro); G Roberts (Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth Dros Dro); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 RHAGFYR 2016

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 6.9 (v) – cadarnhaodd y PST nad oedd unrhyw arbedion wedi dod i'r amlwg cyn 15 Chwefror felly nid oedd modd addasu lefel y gyllideb am i lawr.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Ionawr a Mawrth 2017 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 PAPUR GWYN DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: CADERNID AC ADNEWYDDIAD

6.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn gwahodd yr aelodau i ystyried Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*.

6.2 Mynegodd yr Aelodau bryder am y prinder manylion yn yr adroddiad ac roeddent yn teimlo y dylai ymateb yr Awdurdod gyfeirio at y ffaith fod y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân, o ran craffu, yn cwrdd â chynghorwyr o bob rhan o Ogledd Cymru fel rhan o'r broses o ymgynghori ynghylch yr amcanion gwella a llesiant. Dywedodd y PST wrth yr aelodau i nodi'r egwyddorion sydd yn yr adroddiad ac aros am adroddiad manylach yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a dirprwyo'r dasg o gymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd.**

7 CYNLLUN DRAFFT GWELLA A LLESIANT 2017-18

7.1 Cyflwynodd y DBST y Cynllun Gwella a Llesiant ar gyfer 2017-18 i'w gymeradwyo.

7.2 Fe wnaeth y DBST atgoffa'r aelodau fod y ddau gam o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun wedi cael eu dilyn:

- cam un: roedd y ddogfen ymgynghorol ddrafft wedi cael ei chymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod llawn ar 19 Medi 2016 i ddiben ymgynghori;
- cam dau: yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 13 Chwefror 2017 bu'r aelodau'n ystyried yr ymatebion a ddaeth i'r ymgynghoriad, gan gymeradwyo llunio Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2017-18 ar sail pedwar amcan, i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn y cyfarfod hwn.

7.3 Nododd yr aelodau hefyd fod geiriad y pedwerydd amcan wedi cael ei addasu yng nghyfarfod Gweithgor y Cynllun Gwella ar 6 Mawrth 2017, i adlewyrchu'r awydd i fod yn gydweithredol ac integredig wrth amrywio'r gwasanaethau a ddarperir. Dyma'r amcanion/camau sydd yn y cynllun ar gyfer 2017-18:

(i) Cyflawni rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol i geisio helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi;
(ii) Sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i wasanaethau;
(iii) Ail-falansio adnoddau'r Awdurdod i gyfateb i risg drwy weithredu model o ddarparu adnoddau sy'n sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, a bod o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch;
(iv) Ceisio cyfleoedd i weithio â sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

7.4 Cafodd yr aelodau gyfle i drafod y cynllun a'r amcanion.

7.5 Roedd y Cyng. Pemberton yn bryderus am amcanion 2 a 3, a'r posibilrwydd y bydd yr ail beiriant tân yn cael ei dynnu o orsaf dân Wrecsam fel rhan o ostyngiadau i wasanaethau yn y dyfodol, sef rhywbeth a ystyriwyd fel opsiynau er mwyn mantoli cynllun ariannol tair blynedd, petai'r Cynllun yn cael ei gymeradwyo. Mynegodd aelodau eraill bryderon am golli gofal tân yn ardal Wrecsam petai'r ail beiriant yn cael ei dynnu oddi yno. Esboniodd y Cyng. Lewis nad oedd unrhyw sôn am orsaf dân Wrecsam a'i ail beiriant yn yr adroddiad ac mai'r argymhelliad oedd cymeradwyo'r cynllun lefel uchel ar gyfer 2017-18 a'r pedwar amcan.

7.6 Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at dynnu'r peiriant hwn, nac yn wir at unrhyw newid arall posibl i wasanaethau y bydd yn rhaid eu hystyried yn y dyfodol efallai, felly nid oedd yn fater i'w benderfynu yn y cyfarfod hwn. Ni ddylid ystyried cymeradwyo'r Cynllun fel awgrym o fwriad i wneud unrhyw newidiadau penodol i wasanaethau y tu hwnt i'r rhai a gymeradwywyd eisoes wrth osod y gyllideb ar gyfer 2017/18. Roedd dyletswydd ar yr Awdurdod i fabwysiadu'r Cynllun, ac ni fyddai ei fabwysiadu ynddo'i hun yn arwain at unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau. Byddai'n rhaid i unrhyw opsiynau ar gyfer newidiadau i'r gwasanaethau yn y blynyddoedd nesaf ddod gerbron yr Awdurdod llawn i'w hystyried dros

gyfnod o amser. Esboniodd fod amcan 2 yn cyfeirio at yr unig dri opsiwn strategol sydd ar gael i'r Awdurdod i fantoli ei gyllidebau yn y dyfodol – fel y byddai i unrhyw awdurdod lleol. Roedd y dyfodol ariannol yn ansicr a byddai'n rhaid i'r Awdurdod newydd drefnu ei gynlluniau i gadw gwasanaethau yn ôl y gyllideb y gallai ei sicrhau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

7.7 Rhoddodd y Trysorydd sicrwydd fod geiriad tebyg ar gyfer amcan wedi cael ei ddefnyddio mewn blynyddoedd blaenorol ac nid oedd wedi atal yr Awdurdod rhag penderfynu amrywio'r amcan ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Hefyd, atgoffwyd yr aelodau gan y Trysorydd y byddai'n rhaid i'r Awdurdod newydd, ar ôl yr etholiad, adolygu'r cynllun a gweld sut fyddai'r ffordd orau o weithredu'r amcanion dros amser.

7.8 Roedd y PST yn cefnogi sylwadau'r Clerc a'r Trysorydd. Atgoffodd yr aelodau y cafwyd trafodaethau helaeth yng nghyfarfodydd blaenorol yr Awdurdod am werth gohirio unrhyw ostyngiadau i wasanaethau mor hwyr ag y bo modd. Un pryder mawr i'r aelodau fu osgoi diswyddiadau gorfodol felly roedd angen blaengynllunio ar gyfer opsiynau eraill. Rhestrodd y PST bwysau cyllidebol eraill sy'n wynebu'r Awdurdod, megis yr ESMCP newydd ac ailbrisio pensiynau. Hefyd, bydd yn rhaid i'r Awdurdod ddelio â materion ehangach ym maes llywodraeth leol a materion cyfansoddiadol, yn ogystal ag unrhyw newidiadau a allai ddeillio o'r Papur Gwyn a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Atgoffwyd yr aelodau hefyd fod opsiynau eraill i wneud arbedion cyllidebol i gwrdd â'r diffyg o £900k a ddisgwylir erbyn 2019-20 wedi cael eu trafod gan Weithgor y Cynllun Gwella ac wedi cael eu hadrodd. Felly, roedd yr aelodau'n ymwybodol o'r opsiynau ers peth amser.

7.9 Gofynnodd y Cyng. Pemberton i newid gael ei wneud, sef 'bod pob sôn am Wrecsam yn cael ei dynnu o amcan 3' a hefyd gofynnodd am bleidlais wedi'i chofnodi. Dywedodd y Clerc nad oedd hyn yn ddiwygiad dilys gan nad oedd cyfeiriad at fater ail beiriant Wrecsam yn yr un o'r amcanion.

7.10 Ar sail cyngor y Clerc, cyflwynodd y Cyng. Pemberton ddiwygiad arall, fel a ganlyn: 'mae'r opsiwn i dynnu ail bwmp o Wrecsam yn cael ei dynnu ymaith'. Dywedodd y Clerc fod yr opsiwn wedi cael ei ystyried gan yr Awdurdod, a chan fod amcan dau yn cyfeirio at y posibilrwydd o leihau gwasanaethau, roedd hwn yn ddiwygiad dilys er mwyn egluro safbwynt a bwriadau'r Awdurdod hwn. Dywedodd na fyddai'r diwygiad hwn, petai'n cael ei basio, yn rhwystro'r Awdurdod newydd rhag ystyried yr opsiwn hwn nac unrhyw opsiwn arall i ostwng gwasanaethau neu newid gwasanaethau yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i'r Awdurdod newydd gael cynllun ariannol mantoledig ac ni ellid ei rwystro.

7.11 Cafodd y diwygiad dilys ei dderbyn gan 8 pleidlais i 4. Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar gais y nifer angenrheidiol o aelodau.

7.12 Llongyfarchodd y Cyng. Lewis awdur y cynllun gwella a llesiant am ddogfen hawdd ei darllen a chryno, a chytunwyd i gofnodi'r diolch i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol.

7.13 **Ar ôl derbyn y newid fel y nodir uchod, PENDERFYNWYD, YN UNFRYDOL, gymeradwyo'r drafft terfynol o Gynllun Gwella a Llesiant 2017-18 a'r Datganiad i'w cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2017.**

8 AMCANION GWELLA A LLESIANT 2018-19

8.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn cynnig amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2018/19 a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r amcanion i ddiben ymgynghori. Eglurodd y Clerc y bydd y cynaliadwyedd ariannol yn fater i'r Awdurdod newydd.

8.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2018/19 i ddiben ymgynghori, fel a ganlyn:**

i. Cyflawni rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol gyda'r nod o helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi;

ii. Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy gynnal y strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i wasanaethau;

iii. Ceisio cyfleoedd i weithio â sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

9 YMATEB MEDDYGOL BRYS

9.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am faterion sy'n datblygu mewn perthynas â ffrydiau gwaith y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol i gefnogi gweithgareddau mwy amrywiol i ddiffoddwyr tân. Un ffrwd gwaith allweddol yw darparu ymateb meddygol brys neu gyd-ymateb â'r gwasanaeth ambiwlans i rai categorïau o argyfyngau meddygol.

9.2 Roedd yr Aelodau wedi cael gwybod am y datblygiadau drwy gydol y cynllun treialu cyd-ymateb, a oedd wedi dechrau yn Ebrill 2015 ac wedi rhedeg tan 28 Chwefror 2017. Nodwyd bod y Cyd-Gyngor wedi comisiynu ymchwilwyr i werthuso'r gwaith cyd-ymateb gan ddefnyddio data gan y rhai a fu'n cymryd rhan yn y cynlluniau treialu a chan awdurdodau tân eraill sy'n gwneud y math yma o waith; roedd copi o'r adroddiad ar gael i'r aelodau, ac roedd ei ganfyddiadau'n cael eu dadansoddi gan y Cyd-Gyngor.

9.3 Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a chael eglurhad ar faterion; cadarnhawyd bod diffoddwyr tân yn ymateb i alwadau fesul dau gan ddefnyddio car. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n genedlaethol a gallai newid unwaith y bydd y Cyd-Gyngor wedi gwneud penderfyniad terfynol.

9.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r sefyllfa sy'n datblygu'n genedlaethol;**

**(ii) cydnabod y bydd y trefniadau lleol yn parhau am y tro ond efallai y bydd canlyniad cynhadledd adalw'r FBU ar 21 Mawrth 2017 yn effeithio ar hyn.**

10 ALLDRO AMCANOL 2016-17

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir am flwyddyn ariannol 2016-17. Yn ôl yr arwyddion presennol, ni fydd unrhyw danwariant a bydd angen £454,327 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi cyllideb 2016/17. Cadarnhaodd y Trysorydd fod cronfeydd wrth gefn yn cael ei defnyddio i ategu cyllideb yr Awdurdod, ond roedd llai o gronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio felly defnyddir y gweddill i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.**

11 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

11.1 Cyflwynwyd i'r Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/18. Esboniodd y Trysorydd fod gan y Pwyllgor Archwilio bŵer dirprwyedig i adolygu'r dogfennau hyn yn fanylach, a gwnaethpwyd hyn yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2017.

11.2 Cafodd yr Aelodau wybod bod archwiliad mewnol o'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys wedi canfod risg i Gyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Conwy o ran y ffaith nad yw'r polisi esgeulustod proffesiynol yn ymorol am golledion wrth ddelio ag arian trydydd parti, fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, nodwyd bod CBS Conwy yn cynnig diwygio'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd yn ei le gyda'r Awdurdod Tân ac Achub i gynnwys amod y 'bydd CBS Conwy yn dangos diwydrwydd dyladwy wrth reoli arian Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac y bydd unrhyw golledion sy'n digwydd oherwydd methiannau banc/twyll ariannol/llygredd ayyb yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Tân ac Achub oni bai fod modd profi bod CBS Conwy CBC wedi bod yn esgeulus wrth reoli'r arian hwnnw'. Nodwyd hefyd mai bach yw'r risg i'r Awdurdod Tân ac Achub o gytuno i'r newid hwn gan fod gan CBS hanes rhagorol ac mae'n wastad yn rheoli'r arian o fewn y strategaeth a gymeradwyir gan yr Aelodau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

11.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pedwar elfen allweddol yn yr adroddiad a'r argymhellion sydd ynddynt, a hefyd y diwygiad i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth:**

- **(i) rhestr o ddangosyddion darbodus fel sy'n ofynnol gan God Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**
- **(ii) y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca byrdymor a hirdymor ar gyfer 2016/17 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys;**
- **(iii) y strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**
- **(iv) Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw;**
- **(v) diwygiad i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr esbonnir ym mharagraff 11.2.**

12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

12.1 Cyflwynodd y Clerc adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r aelodau.

12.2 Nodwyd bod yr aelodau annibynnol Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones yn dod i ddiwedd eu hail gyfnodau ar yr Awdurdod ac roedd yr aelodau'n dymuno cael cofnod o'u dymuniad i ddiolch i'r ddwy wraig am eu cyfraniadau rhagorol dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Caiff dau annibynnol newydd eu recriwtio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

13 DATGANIAD AR BOLISI TÂL

13.1 Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i'r datganiad ar bolisi tâl ar gyfer 2017/18. Nodwyd bod y datganiad wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2017/18 er mwyn cydymffurfio â'r nodiadau cyfarwyddyd diwygiedig ar 'Dryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a luniwyd gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

13.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad ar bolisi tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod, sef 2017/18.**

14 DIRPRWYO PWERAU DROS DRO

14.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r aelodau ddirprwyo pwerau o ddiwedd swydd aelodau presennol yr Awdurdod Tân ac Achub i gyfarfod cyntaf yr Awdurdod ar ôl yr etholiadau.

14.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo bod holl bwerau'r Awdurdod Tân ac Achub, ei bwyllgorau a deiliaid ei swyddi yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Trysorydd, am y cyfnod o 9 Mai 2017 hyd at gyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19 Mehefin 2017.**

**(ii) nodi na fydd y dirprwyaethau hyn yn berthnasol ond i'r graddau y mae pwerau o'r fath yn ymwneud â phenderfyniadau na ellir eu gohirio'n rhesymol tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.**

15 Y TREFNIADAU A'R CYFNOD CYNEFINO AR ÔL YR ETHOLIAD (AR LAFAR)

15.1 Rhoddodd y Clerc wybod i'r aelodau y bydd diwrnod hyfforddi/cynefino yn cael ei gynnal ar 13 Mehefin 2017 ar gyfer aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

16 COFNODION – ER GWYBODAETH

16.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2017
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017
- Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2017.

16.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Rhif Adroddiad | **FRA2017/06/06** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Perfformiad Ariannol 2016-2017** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu perfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2016-17 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2016-17, a chymeradwyo bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu cario drosodd fel y nodir ym mharagraffau 32 a 33.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

(i) nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod; a

(ii) cymeradwyo bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu cario drosodd fel y nodir ym mharagraffau 32 a 33;

(iii) y cronfeydd a glustnodwyd yw'r rhai a nodir ym mharagraff 34.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CYFLWYNIAD**

5 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu'r gwariant refeniw yn 2016-17 o gymharu â'r gyllideb, ac mae'r dadansoddiad ariannol wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn esbonio beth yw'r cronfeydd a'r darpariaethau sydd gan yr Awdurdod; rhoddir manylion y cronfeydd a'r darpariaethau yn Atodiad B. Mae adran nesaf yr adroddiad yn edrych ar y cynlluniau a gafodd arian grant, gyda dadansoddiad manwl yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn; gellir cael y manylion yn Atodiad D.

## CEFNDIR

6 Yr Amcanion Gwella drafft a gymeradwywyd ar gyfer 2016-17 oedd cynnal lefel bresennol y gwaith atal tanau; ail-falansio adnoddau i gyfateb i'r risg ar gyfer ymatebion brys; amrywio rôl y diffoddwyr tân i gynnig gwasanaeth ychwanegol i'r cyhoedd; ac ymgorffori unrhyw gostau anochel felly gosod cyllideb heb unrhyw gynnydd.

7 Er mwyn gosod cyllideb wedi'i rhewi, ynghyd â chynnal y ddarpariaeth gwasanaethau ar y lefelau presennol, penderfynodd yr Awdurdod y byddai unrhyw bwysau anochel o ran costau yn cael eu hymgorffori drwy newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynnal a thrwy ddefnyddio cronfeydd unigol. £760k oedd lefel amcangyfrifiedig y cronfeydd yr oedd eu hangen i osod cyllideb fantoledig.

8 Yn fewnol, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymu wedi canolbwyntio ar ddiweddaru ei seilwaith. Cafodd Gorsaf Dân ac Ambiwlans Wrecsam ei chwblhau eleni, gan orffen buddsoddiad 15 mlynedd yn y rhaglen ystadau. Cafodd yr orsaf newydd, a system gorchymyn a rheoli fwy cadarn, eu cyflawni mewn pryd, a chafodd yr achos busnes ar gyfer y system Adnoddau Dynol/gwybodaeth reoli eu datblygu gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus.

## GWEITHGAREDDAU REFENIW

### Gweithwyr

9 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gysylltiedig â chyflogau; 70% yn 2016-17. Mae £65k o danwariant yn y gyllideb gyffredinol o gymharu â'r gyllideb.

10 Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth gofal tân, cafodd nifer o ddiffoddwyr tân amser cyflawn (WDS) eu cyflogi ar gontractau amser cyflawn gwledig, ynghyd â nifer o brentisiaid diffoddwyr tân. Mae'r recriwtiaid newydd yn darparu gofal ar orsafoedd y system RDS yn ogystal ag orsafoedd y system WDS. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd sawl awr o ofal oedd eu hangen, ond oherwydd ymddeoliadau ac absenoldeb salwch tymor hir, mae'r recriwtiaid newydd yn darparu mwy o ofal nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae'r gorwariant hwn ar ddiffoddwyr tân WDS yn cael ei wrthbwyso gan yr arbedion yn y gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS.

11 Mae'r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn gysylltiedig â swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol. Ond mae rhan o gyllideb y swydd wedi cael ei defnyddio ar gyfer darparu gofal absenoldeb salwch o fewn tîm y Prif Swyddogion.

12 Mae’r gorwariant ar gyllideb staff cefnogol a chyllideb staff dros dro yn gysylltiedig yn bennaf â chyflogi staff â sgiliau arbenigol ar gontractau cyfnod penodol er mwyn cyflawni nifer o brosiectau trawsnewidiol, megis y system gorchymyn a rheoli a’r system gwybodaeth reoli newydd.

13 Yn dilyn cyflwyno systemau newydd, mae nifer o brosesau wedi cael eu symleiddio, gan arwain at fod angen llai o staff cefnogol. Wedi’u cynnwys yn yr alldro amcanol, mae costau taliadau diswyddo gwirfoddol nad oedd wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol. Bydd y costau diswyddo’n cael eu gwrthbwyso gan arbedion yn y blynyddoedd i ddod.

14 Mae gorwariant ar gyllideb pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd mai doeth oedd ariannu’r ymddeoliadau hyn o’r gyllideb refeniw ac nid drwy’r ddarpariaeth bensiynau.

**Safleoedd**

15 Mae gorwariant ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw, yn rhannol oherwydd bod swm wrth gefn wedi cael ei ychwanegu ar gyfer gorsaf dân ac ambiwlans Wrecsam a nifer o brosiectau ychwanegol, sydd wedi cael eu dwyn ymlaen er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw hanfodol yn cael ei wneud i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

16 Mae costau ynni wedi cynyddu’n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, ac er mwyn lleihau’r defnydd a’r costau, sefydlwyd mesurau dan oruchwyliaeth swyddog monitro ynni (sef swydd sy’n cael ei rhannu gyda Heddlu Gogledd Cymru). Mae’r mesurau hyn wedi golygu bod y costau ynni’n is na’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn, a £40k yn is na’r gwariant yn y flwyddyn flaenorol.

17 Mae’r cynnydd yn y cyfraddau busnes wedi digwydd yn bennaf wrth i orsaf dân ac ambiwlans Wrecsam yn weithredol.

**Trafnidiaeth**

18 Yn gyffredinol, mae £82k o danwariant yn y gyllideb trafnidiaeth. Mae £204k o danwariant ar gostau tanwydd a threuliau teithio, oherwydd y gostyngiad mewn prisiau tanwydd a’r lefelau gweithgaredd presennol.

19 Ond mae gorwariant ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw, oherwydd y cynnydd yn y cyfarpar electronig sydd ar gerbydau, gan ychwanegu at y costau cynnal a chadw. Mae’r costau ychwanegol ar y gyllideb peiriannau a chyfarpar wedi digwydd oherwydd bod adran y fflyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaeth cynnal a chadw yn yr orsaf newydd yn Wrecsam, ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.

**Cyflenwadau**

20 Mae'r tanwariant ar gyfarpar gweithredol wedi digwydd oherwydd addasiad ar gyfer eitemau a brynwyd i'r storfeydd ac sy'n cael eu cadw fel stoc.

21 Mae gorwariant ar y gyllideb gwisgoedd oherwydd bod angen cyfarpar amddiffyn personol (PPE) ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr sydd â dwy swydd.

22 Mae gorwariant ar gostau cyfrifiadurol. Cafodd hyn ei awdurdodi er mwyn cyflawni'r prosiect gorchymyn a rheoli risg-gritigol o fewn yr amser a ragnodwyd. Gellid bod wedi cyfalafu'r costau hyn. Ond ar ôl trafod â'r trysorydd, penderfynwyd eu hariannu o'r refeniw er mwyn lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol.

23 Cafwyd costau ychwanegol ar dreuliau cynhaliaeth oherwydd bod swydd y diffoddwr tân yn dod yn fwyfwy symudol er mwyn darparu gofal effeithlon ar orsafoedd WDS a RDS.

24 Mae'r gwariant ychwanegol ar y gyllideb cyfathrebu corfforol wedi digwydd oherwydd y costau datblygu ar gyfer y gwaith hirddisgwyliedig o uwchraddio a gwella gwefan y Gwasanaeth.

25 Er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae gwariant grant yn cael ei ddangos o fewn corff y cyfrifon erbyn hyn, fel y mae'r incwm grant a ddaw i law. Ceir dadansoddiad o'r grantiau hefyd yn Atodiad C.

**Asiantaeth**

26 Mae'r contract a drefnwyd ar gyfer gwaith glanhau yn yr holl orsafoedd yn darparu lefel a safon sy'n uwch yn gyson, ond mae'n golygu mwy o gost.

**Ariannu Cyfalaf**

27 Mae'r ffioedd dyledion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd defnyddir benthyca tymor byr yn hytrach na benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac oherwydd bod y rhaglen gyfalaf wedi cael ei had-drefnu ar gyfer gwaith adeiladu yn 2015-16. Mae'r ffioedd cyfalaf ar gyfer ad-dalu dyled yn llai na'r gyllideb oherwydd gosodwyd y gyllideb ar sail y sefyllfa alldro yn Rhagfyr 2015. Sicrhawyd costau llog is hefyd, drwy 'fenthyca'n fewnol' pryd mae cronfeydd a balansau wedi cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen yn hytrach na chael benthyciadau newydd.

## Incwm

28 Mae'r incwm cyffredinol yn uwch na'r gyllideb wreiddiol (ac eithrio incwm grant). Croesawyd gostyngiad yn nifer y galwadau am wasanaethau arbennig, ond mae hyn wedi arwain at gael llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Mae'r incwm o ffioedd cyfalaf wedi gostwng yn unol â'r gwariant a fu ar y rhaglen gyfalaf ynghyd ag ail-gysoni'r gyllideb gyfalaf. Mae'r incwm ychwanegol o werthiant wedi digwydd o ganlyniad i'r incwm a gafwyd drwy gael gwared ar gerbydau a chyfarpar pan brynir rhai newydd neu pan nad oes mo'u hangen mwyach.

29 Roedd y llog ar falansau'n llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a defnyddio cronfeydd a balansau i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

### Tanwariant

30 Roedd y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £760k o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd tanwariannau ar nifer o benawdau, £655k oedd y cyfraniad o gronfeydd yr oedd ei angen i fantoli'r gyllideb, sef £105k yn llai na'r swm y cyllidebwyd ar ei gyfer.

### Cronfeydd a glustnodwyd

31 Mae adroddiadau blaenorol wedi nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau radio. Mae rhywfaint o gostau'r prosiect wedi cael ei ariannu o'r gyllideb refeniw yn 2016-17 yn hytrach na defnyddio'r gronfa a neilltuwyd yn benodol ar gyfer y prosiect. Ond gan fod y prosiect yn dal i fynd yn ei flaen, rhaid cael arian i ymorol am y risg bod y gwasanaeth yn gweld costau ychwanegol yn y meysydd a ganlyn:-

a. Os nad yw'r amserlenni ar gyfer trosglwyddo yn cael eu cyflawni, efallai y bydd angen ymestyn y contract cyfredol, a gallai hynny fod yn llawer drutach.

b. Mae'r system gyfredol yn cael ei hariannu'n rhannol drwy grant gan Lywodraeth Cymru ac nid oes sicrwydd y bydd hyn yn parhau.

32 Oherwydd y sefyllfa uchod, bydd y gronfa o £300k yn cael ei chario drosodd fel rhan o gronfeydd a glustnodwyd.

33 Cafodd cronfa o £194k ei chlustnodi a'i sefydlu yn 2015-16 yn dilyn bwriad Llywodraeth Cymru i leihau'r grant ar gyfer diogelwch tân cymunedol. Mae'r cyllid ar gyfer 2016-17 wedi cael ei leihau 50%, ac mae lefel y cyllid ar gyfer 2017-18 hefyd yn is. Felly, doeth yw cario'r gronfa hon drosodd er mwyn ariannu gwariant yn y dyfodol.

34 Mae adran y fflyd wedi gorfod cael cerbyd cludo newydd. Nid oes arian wedi'i neilltuo ar gyfer y cerbyd hwn felly gofynnir am gael clustnodi cronfa o £54k i dalu'r costau.

**Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn**

35 Y diffiniad o gronfa wrth gefn yw 'gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Roedd yr Awdurdod yn dal £2,669k mewn cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2016, ac mae wedi defnyddio £655k fel cyfraniad i gyllideb refeniw 2016-17. Cafodd y mater o ddefnyddio cronfeydd i osod cyllideb fantoledig ei gymeradwyo gan yr Aelodau. Defnyddiwyd swm llai o'r gronfa na'r swm a oedd yn y gyllideb.

36 Clustnodwyd cronfa i ariannu rhywfaint o'r costau hyfforddi yn 2016-17. Mae'r hyfforddiant wedi cael ei ariannu o'r refeniw felly nid yw bellach yn ofynnol i ddal y gronfa hon. Felly, mae £30k wedi cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol. Fel y nodir ym mharagraff 34, mae £54k wedi cael ei drosglwyddo o'r gronfa gyffredinol i gronfa a glustnodwyd. £1,990k oedd balans y gronfa gyffredinol ar 31 Mawrth 2017.

37 Mae'n ddoeth i'r Awdurdod ddal cronfa gyffredinol i ymorol am ymrwymiadau annisgwyl a allai godi ac i gynorthwyo i gynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn lleihau cynnydd yn y cyllidebau.

**Cronfa Gyfalaf**

38 Sefydlwyd y gronfa gyfalaf i'w defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf pan mae'n fwyaf manteisiol i wneud hynny, o ran cael yr arbedion mwyaf drwy leihau ffioedd dyledion ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol. Eleni, defnyddiwyd yr holl gronfa i ariannu'r rhaglen gyfalaf er mwyn lleihau ffioedd dyledion yn y dyfodol.

**Darpariaethau**

39 Mae'r Awdurdod wedi gallu dal darpariaethau erioed. Y diffiniad o ddarpariaeth yw 'arian wedi'i neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'.

40 Dim ond un ddarpariaeth sydd gan yr Awdurdod – sef y ddarpariaeth bensiynau – ac mae honno'n cael ei dal er mwyn ymorol am daliadau i'r gronfa bensiwn ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd a chostau unrhyw daliadau lwmp-swm nad ydynt yn dod o fewn y cynllun pensiwn. Ni fu unrhyw symudiad ar y ddarpariaeth eleni oherwydd bu modd ariannu'r costau hyn o'r gyllideb refeniw.

### Cynlluniau sy'n cael Arian Grant

41 Mae'r Awdurdod wedi cael cyllid ar gyfer nifer o gynlluniau, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru; £3.179m oedd cyfanswm y cyllid a gafwyd. Roedd y manteision i'r gymuned o ganlyniad i'r cynlluniau hyn yn cynnwys cynllun y Ffenics, gosod larymau mwg rhad ac am ddim, a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Bu cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Cymru Gydnerth, sy'n egluro'r cynnydd yn yr arian grant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau hyn yn Atodiad C.

### Gweithgaredd Cyfalaf

42 Sefydlwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2015, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd ac arian yn cario drosodd o flynyddoedd blaenorol.

43 Yn dilyn cau'r cyfrifon ar gyfer 2015-16, cafodd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2016-17 ei hadolygu i ymgorffori unrhyw gynlluniau a oedd wedi cael ei had-drefnu ers 2015-16. Yna, cafodd y gyllideb ei chynyddu £2.09m i £6.11m.

44 Roedd tanwariant ar y gyllideb gwaith cynnal a chadw a mân waith adeiladu yn yr arfaeth oherwydd bod rhai eitemau llai o wariant cyfalaf wedi cael eu trosglwyddo i'r refeniw.

45 Cafodd Gorsaf Dân ac Ambiwlans newydd Wrecsam ei chwblhau yn 2016-17 a daeth yn weithredol yn Ebrill 2017. Cafodd y gwaith ei gwblhau'n agos i'r gyllideb ddiwygiedig. Mae Atodiad D yn nodi'r union wariant o gymharu â'r gyllideb.

46 Roedd y gwariant ar gerbydau ysgafn yn uwch na'r gyllideb a osodwyd, oherwydd cafwyd nifer o gerbydau newydd yn gynt na'r disgwyl. Cafodd y gorwariant ei wrthbwyso gan danwariannau ar benawdau eraill yn y gyllideb. Roedd y gwariant ar dendrau dŵr (injanau tân) yn llai na'r gyllideb oherwydd amseriad y gwaith adeiladu cyfnodol ar y cerbydau. Bydd y gyllideb yn cael ei chario drosodd i ymorol am gost lawn y cerbydau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

47 Mae'r gwariant ar gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfarpar arall yn llai na'r gyllideb oherwydd bod nifer o brosiectau trawsnewidiol wedi cael eu had-drefnu. Bydd y gyllideb ar gyfer y prosiectau penodol hyn yn cael ei chario drosodd i 2017-18.

48 Mae gwariant o £116k ar waith adeiladu cyfnodol ar beiriant arbennig wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd cyllid pellach i ymorol am gost lawn y peiriant, a bydd hynny'n cael ei ddefnyddio pan gaiff y cerbyd ei gwblhau.

49 Yn 2016-17, mae £400k o'r gronfa gyfalaf wedi cael ei ddefnyddio i leihau costau ariannu cyfalaf yn y dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant tymor hir GTAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Fel y nodir yn y papur |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Petai'r Awdurdod yn gorwario ar ei gyllideb gymeradwyedig, byddai'n rhaid iddo ategu ei gyllideb o'r cronfeydd wrth gefn. Bydd hynny'n golygu ei bod yn anos cael cyllideb gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. |

GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU **ATODIAD A**

**CYLLIDEB 2016/2017**

| Penawdau Penodol | Gwirioneddol 2015/2016 £ | Cyllideb 2016/2017 £ | Gwirioneddol 31/03/2017 £ | Amrywiad Cyllideb 2016/2017 £ |
|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | |
| Prif Swyddogion | 476,775 | 599,786 | 555,689 | -44,097 |
| Diffoddwyr Tân - Amser Cyflawn | 13,031,462 | 13,511,572 | 13,583,954 | 72,382 |
| Diffoddwyr Tân - Rhan Amser | 3,374,671 | 3,527,288 | 3,191,931 | -335,357 |
| Staff Cefnogol | 4,115,000 | 4,379,450 | 4,539,642 | 160,192 |
| Crefftwyr Peirianyddol | 291,518 | 288,395 | 288,244 | -151 |
| Hyfforddiant Ffurfiol i'r Staff | 481,571 | 453,140 | 447,058 | -6,082 |
| Costau Adleoli | 15,795 | 22,000 | 7,661 | -14,339 |
| Hysbysebu /Gwiriadau CRB | 15,321 | 10,500 | 9,802 | -698 |
| Amrywiol (Meddygol, YC, prydlesu ceir) | 67,716 | 64,899 | 126,205 | 61,306 |
| Pensiynau Llywodraeth Leol | 13,042 | 13,300 | 19,979 | 6,679 |
| Pensiynau Diffoddwyr Tân | 458,621 | 421,000 | 456,080 | 35,080 |
| **CYFANSWM GWEITHWYR** | **22,341,492** | **23,291,330** | **23,226,245** | **-65,085** |
| **ADEILADAU** | | | | |
| Cynnal a Chadw | 343,226 | 194,320 | 385,482 | 191,162 |
| Costau a ddilewyd - hen swyddfa Conwy | 59,874 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Ynni (Nwy, Trydan, Olew) | 289,256 | 342,294 | 249,368 | -92,926 |
| Gwasanaethau Dŵr | 54,360 | 59,615 | 57,213 | -2,402 |
| Yswiriant | 43,772 | 39,000 | 48,221 | 9,221 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 516,659 | 540,000 | 579,985 | 39,985 |
| Gosodiadau a Ffitiadau | 4,361 | 5,075 | 5,823 | 748 |
| Rhentu Swyddfeydd Rhanbarthol | 144,890 | 140,000 | 130,841 | -9,159 |
| Rhentu'r Ystafell Reoli ac Uned Storfa | 30,416 | 60,900 | 56,303 | -4,597 |
| Prosiect y Ddraig Werdd | 9,368 | 6,000 | 10,409 | 4,409 |
| Offer glanhau/casglu sbwriel | 48,547 | 43,272 | 46,866 | 3,594 |
| | 0 | | | |
| **CYFANSWM ADEILADAU** | **1,544,728** | **1,430,476** | **1,570,511** | **140,035** |
| **TRAFNIDIAETH** | | | | |
| Prynu Peiriannau ac Offer | 22,201 | 8,000 | 33,647 | 25,647 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 330,951 | 290,000 | 369,244 | 79,244 |
| Costau Rhedeg | 279,238 | 266,115 | 283,827 | 17,712 |
| Tanwydd | 238,604 | 384,000 | 238,629 | -145,371 |
| Cytundebau Hurio Staff | 129,931 | 149,325 | 121,894 | -27,431 |
| Costau Teithio | 88,827 | 140,000 | 108,332 | -31,668 |
| **CYFANSWM TRAFNIDIAETH** | **1,089,752** | **1,237,440** | **1,155,573** | **-81,867** |

| Penawdau Penodol | Gwirioneddol 2015/2016 £ | Cyllideb 2016/2017 £ | Gwirioneddol 31/03/2017 £ | Amrywiad Cyllideb 2016/2017 £ |
|---|---|---|---|---|
| **CYFLENWADAU** | | | | |
| Offer Glanhau a Domestig | 3,448 | 5,738 | 4,319 | -1,419 |
| Offer Swyddfa | 34,704 | 48,512 | 45,705 | -2,807 |
| Dodrefn | 28,019 | 10,075 | 11,014 | 939 |
| Offer Cyffredinol | 7,587 | 11,382 | 6,595 | -4,787 |
| Offer Gweithredol | 302,895 | 277,673 | 251,352 | -26,321 |
| Offer i'r Ffreutur | 3,015 | 1,269 | 2,628 | 1,359 |
| Llyfrau/Cyhoeddiadau | 1,809 | 700 | 488 | -212 |
| Tanysgrifiau | 48,608 | 51,410 | 49,286 | -2,124 |
| Darpariaethau | 14,291 | 15,076 | 8,093 | -6,983 |
| Gwisgoedd a Chostau Golchi Dillad | 209,724 | 195,700 | 245,711 | 50,011 |
| Argraffu a deunydd ysgrifennu | 87,665 | 94,800 | 73,171 | -21,629 |
| Diogelwch Tân Cyffredinol | 140,875 | 152,767 | 156,431 | 3,664 |
| Costau Cyfrifadurol | 875,254 | 688,588 | 784,685 | 96,097 |
| Cyfathrebu | 964,530 | 1,176,590 | 1,109,884 | -66,706 |
| Costau Cynhadleddau a Chynhaliaeth - | | | | |
| Cyffredinol | 80,300 | 73,234 | 91,529 | 18,295 |
| Yswiriant | 215,930 | 245,735 | 263,791 | 18,056 |
| Ffioedd yr Archwilydd | 49,792 | 57,000 | 62,417 | 5,417 |
| Cynllunio Corfforaethol | 426 | 3,000 | 1,490 | -1,510 |
| Cyfarthrebu Corfforaethol | 115,876 | 109,861 | 139,208 | 29,347 |
| Ffioedd Proffesiynol (codiant banc, actwrari) | 23,760 | 8,500 | 18,820 | 10,320 |
| JESG/Cynllunio wrth gefn/Mentrau NIC | | | | |
| Cyd-ymateb | 163,363 | 100,000 | 94,987 | -5,013 |
| Gwariant grant arall | 1,424,553 | 0 | 2,778,596 | 2,778,596 |
| Lwfansau Aelodau, Costau Pwyllgor | 70,080 | 80,090 | 70,588 | -9,502 |
| System Gwerthuso Swyddi | 0 | 1,000 | 0 | -1,000 |
| | 0 | | | |
| **CYFANSWM CYFLENWADAU** | **4,866,504** | **3,408,700** | **6,270,788** | **2,862,088** |
| **ASIANTAETHAU** | | | | |
| Iechyd Galwedigaethol | 137,066 | 135,000 | 134,772 | -228 |
| Cynnal Safleoedd | 23,728 | 20,000 | 25,616 | 5,616 |
| Glanhau adeiladau | 274,177 | 201,120 | 256,594 | 55,474 |
| **CYFANSWM AR ASIANTAETHAU** | **434,971** | **356,120** | **416,982** | **60,862** |

| Penawdau Penodol | Gwirioneddol 2015/2016 £ | Cyllideb 2016/2017 £ | Gwirioneddol 31/03/2017 £ | Amrywiad Cyllideb 2016/2017 £ |
|---|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU CEFNOGOL** | | | | |
| Rheoli Cyfleusterau | 193,189 | 196,000 | 141,154 | -54,846 |
| Caffael | 7,500 | 17,000 | 7,500 | -9,500 |
| Swyddog Monitro/Gwasanaethau cyfreithiol | 13,982 | 15,000 | 24,061 | 9,061 |
| Trysorydd i'r Awdurdod Tân | 6,573 | 3,507 | 9,058 | 5,551 |
| Gwasanaethau ariannol | 106,500 | 112,200 | 112,565 | 365 |
| Gwasanaethau pensiwn | 37,100 | 29,000 | 40,428 | 11,428 |
| Deddfwriaeth Cyflogaeth | 49,800 | 50,000 | 23,727 | -26,273 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU CEFNOGOL** | **414,644** | **422,707** | **358,493** | **-64,214** |
| **ARIANNU CYFALAF** | | | | |
| Costau Dyledion | 2,822,046 | 3,260,000 | 3,063,408 | -196,592 |
| **CYFANSWM ARIANNU CYFALAF** | **2,822,046** | **3,260,000** | **3,063,408** | **-196,592** |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **33,514,137** | **33,406,773** | **36,062,000** | **2,655,227** |
| **INCWM** | | | | |
| Gwerthiannau | -42,384 | -18,000 | -66,852 | -48,852 |
| Monitro Larymau | -2,934 | -2,775 | -3,210 | -435 |
| Galwadau Gwasanaethau Arbennig | -38,791 | -10,100 | -4,376 | 5,724 |
| Trwyddedi Hydrantau Tân | -48,253 | -45,000 | -37,473 | 7,527 |
| Rhenti - Mannau ar y Cyd | -45,215 | -40,804 | -41,507 | -703 |
| Amrywiol | -42,427 | -26,000 | -68,491 | -42,491 |
| Llog | -7,554 | -10,000 | -5,960 | 4,040 |
| Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl | -34,562 | -41,234 | -32,148 | 9,086 |
| Grant Firelink | -415,600 | -415,600 | -415,600 | 0 |
| Grantiau eraill | -1,424,553 | 0 | -2,763,012 | -2,763,012 |
| Rhenti - Mannau Erialau | -34,044 | -36,000 | -37,955 | -1,955 |
| Cynllunio Rhag Argyfyngau | -29,680 | -25,000 | 0 | 25,000 |
| Taliad am wneud gwaith cyd-ymateb | 0 | 0 | -4,481 | -4,481 |
| Ad-dalu ffioedd cyfalaf | -69,251 | -90,000 | -40,573 | 49,427 |
| Ad-daliad les | -34,204 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **-2,269,452** | **-760,513** | **-3,521,638** | **-2,761,125** |
| **GWARIANT NET** | **31,244,685** | **32,646,260** | **32,540,362** | **-105,898** |
| **CYFRANIADAU I/GAN GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | |
| Cyfraniad i/gan gronfeydd wrth gefn | 0 | **-760,417** | **-654,519** | 105,898 |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o refeniw | 641,158 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **31,885,843** | **31,885,843** | **31,885,843** | **0** |

## MANTOLEN DARPARIAETHAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN

| Cynllun | Balans Agor 01/04/2016 £ | Symudiad 2016/17 | Balans Cau 31/03/2017 |
|---|---|---|---|
| **Darpariaethau** | | | |
| Darpariaeth Pensiwn Salwch | (100,000) | 0 | (100,000) |
| **CYFANSWM DARPARIAETHAU** | **(100,000)** | **0** | **(100,000)** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | (2,668,648) | 678,519 | (1,990,129) |
| Cronfa wrth gefn wedi'i glustnodi | (624,506) | (24,000) | (648,506) |
| Cronfa wrth gefn cyfalaf | (400,000) | 400,000 | - |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | **(3,693,154)** | **1,054,519** | **(2,638,635)** |

ATODIAD C

## GWARIANT ARIANNIR GAN GRANT

| Cynllun a Gefnogwyd | Gwir 2015/2016 £ | Gwir 2016/2017 £ |
|---|---|---|
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | 191,782 | 113,880 |
| Diffibrilwyr - offer cydymateb | 147,860 | 0 |
| Firelink | 415,600 | 415,600 |
| Datblygu Partneriaeth ADC | 25,168 | 0 |
| Ymyrriadau | 126,907 | 75,709 |
| Cynnal a chadw offer NDG | 102,099 | 128,458 |
| Dimensiynau Newydd/Cydnerthedd Cymru gyf | 264,136 | 1,998,556 |
| Ffenics | 395,687 | 284,044 |
| Cydnerthedd | 52,891 | 69,021 |
| Mentrau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 107,206 | 0 |
| Cydlynydd trydydd sector | 10,818 | 0 |
| Tîm Cymorth Cymunedol | 0 | 93,343 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **1,840,153** | **3,178,611** |

ATODIAD D

## GWARIANT CYFALAF

| Penawdau Penodol | Cyllideb Gwreiddiol 2016/2017 £ | Cyllideb wedi'i addasu 2016/2017 £ | Gwir 2016/2017 £ |
|---|---|---|---|
| GWARIANT | | | |
| **ADEILADAU** | | | |
| Mân Waith Adeiladu | 100,000 | 103,449 | 83,110 |
| Gwaith Cynnal wedi'i Gynllunio | 750,000 | 842,625 | 716,762 |
| Gorsaf Dân Tywyn | 0 | 93,902 | 9,186 |
| Gorsaf Dân Nefyn | 0 | 27,586 | 1,591 |
| Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy | 0 | 0 | 57,464 |
| Adeilad newydd - Gorsaf Dân Wrecsam | 0 | 144,414 | 155,435 |
| Gorsaf Dân Dolgellau | 500,000 | 498,750 | 1,200 |
| **CYFANSWM ADEILADAU** | **1,350,000** | **1,710,726** | **1,024,748** |
| **TRAFNIDIAETH** | | | |
| Tendrau Dŵr | 1,150,000 | 1,273,450 | 598,079 |
| Cerbydau Ysgafn | 491,000 | 168,153 | 268,420 |
| Peiriannau ALP | 0 | 0 | 0 |
| Peiriannau arbennig | 0 | 0 | 116,400 |
| **CYFANSWM TRAFNIDIAETH** | **1,641,000** | **1,441,603** | **982,899** |
| **CYFLENWADAU** | | | |
| TG ac Offer Arall | 1,023,000 | 2,957,942 | 934,733 |
| **CYFANSWM CYFLENWADAU** | **1,023,000** | **2,957,942** | **934,733** |
| **CYFANSWM** | **4,014,000** | **6,110,271** | **2,942,380** |
| **ADNODDAU AR GAEL:** | | | |
| Cyfraniadau Allanol | 0 | 0 | 185,890 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 430,000 | 0 | 20,094 |
| Cyfraniad o Gronfa wrth gefn Cyfalaf | 190,000 | 400,000 | 400,000 |
| Cyfraniadau refeniw | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau | 3,394,000 | 5,710,271 | 2,336,396 |
| **CYFANSWM** | **4,014,000** | **6,110,271** | **2,942,380** |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Rhif adroddiad | **FRA2017/06/08** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol o'r Dyledion Drwg a ddilëwyd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Hysbysu Aelodau o'r dyledion drwg a ddilëwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Hysbysu Aelodau na ddilëwyd unrhyw ddyled ddrwg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir fod Aelodau'n nodi nad yw'r Gwasanaeth wedi dileu unrhyw ddyled ddrwg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Yn ôl cais gan yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol yn rhestru'r holl ddyledion o dan £5,000 sydd wedi eu dileu fel rhai nad oes modd eu hadfer, er gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

6 Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, nid yw'r Gwasanaeth wedi dileu unrhyw ddyled ddrwg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim |
| Y Gyllideb | Dim |
| Cyfreithiol | Dim |
| Staff | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Dim |
| Risg | Dim |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Rhif Adroddiad | **FRA2017/06/09** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gary Brandrick (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cwynion a Gwerthfawrogiadau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am nifer y cwynion a'r gwerthfawrogiadau a ddaeth gan y cyhoedd am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhoi gwybod i'r aelodau am nifer y cwynion a'r gwerthfawrogiadau a ddaeth gan y cyhoedd am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr aeodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**GWYBODAETH**

**Cofnodi Cwynion yn Ffurfiol**

5 Mae cwynion adroddadwy'n cael eu cofnodi fel materion sy'n cael eu dwyn i sylw'r Gwasanaeth pan fydd aelodau o'r staff yn cymryd rhan neu'n cyflawni busnes cyfreithlon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

6 Nid yw cyfanswm y cwynion yn cynnwys rhai gan aelodau pryderus o'r cyhoedd am faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth diogelwch tân ar safleoedd lle byddai GTAGC yn awdurdod gorfodi neu ymgynghorol ar gyfer deddfwriaeth a rheoliadau diogelwch sy'n gymwys i'r safleoedd hynny.

**Cwynion a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017**

7 Dyma gofnod o'r cwynion adroddadwy a ddaeth i law, y cynhaliwyd ymchwiliad iddynt, ac a gafodd eu datrys:

| Tabl 1 | | | |
|---|---|---|---|
| **Categorïau cwynion** | **Cwynion adroddadwy a gafwyd** | | **Gwahaniaeth** |
| | 2015/2016 | 2016/2017 | |
| Y Gymraeg | 0 | 1 | ↑ +1 |
| Polisi a Gweithdrefn | 3 | 6 | ↑ +3 |
| Gyrru | 8 | 3 | ↓ -5 |
| Gweithgareddau Gweithredol | 3 | 7 | ↑ +4 |
| Ymddygiad | 6 | 8 | ↑ +2 |
| Darpariaeth Diogelwch Busnesau/Cymunedol | 5 | 5 | ←→0 |
| **Cyfanswm** | **25** | **30** | ↑ +6 |
| **Cynnydd canrannol ers 15/16** | | | ↑ **+20%** |
| **Cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol = 22.5** | | | ↑ **+33%** |

| Tabl 2 | | | |
|---|---|---|---|
| **Categorïau cwynion** | **Cwynion adroddadwy a gafodd eu cadarnhau** | | **Gwahaniaeth** |
| | 2015/2016 | 2016/2017 | |
| Y Gymraeg | - | 1 | ↑ +1 |
| Polisi a Gweithdrefn | 0 | 3 | ↑ +3 |
| Gyrru | 2 | 2 | ←→0 |
| Gweithgareddau Gweithredol | 1 | 1 | ←→0 |
| Ymddygiad | 2 | 0 | ↓ -2 |
| Darpariaeth Diogelwch Busnesau/Cymunedol | 2 | 2 | ←→0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **9** | ↑ +2 |
| **Canran y cwynion a gafodd eu cadarnhau** | **28%** | **30%** | ↑ **+2%** |
| **Cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol = 39%** | | | ↓ **-9%** |

**Gwerthfawrogiadau a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017**

8 Efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno nodi bod 129 o negeseuon o werthfawrogiad wedi dod i law yn ffurfiol, drwy lythyrau, cardiau, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol, i fynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd â GTAGC a'i staff.

9 Roedd y negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i law yn ymwneud ag amrywiaeth eang o'n gweithgareddau, ond yn gyffredinol maent o fewn y categorïau yn nhabl 3.

10 Pan fydd gwerthfawrogiad yn dod i law, bydd y staff dan sylw yn cael gwybod yn ysgrifenedig, a byddant yn derbyn diolch yn ffurfiol ar ran y Gwasanaeth.

| Tabl 3 | | | |
|---|---|---|---|
| **Categorïau Gwerthfawrogiad** | **Gwerthfawrogiadau a ddaeth i law** | | **Gwahaniaeth** |
| | 2015/2016 | 2016/2017 | |
| Mentrau a digwyddiadau diogelwch cymunedol, gan gynnwys ymweliadau â GTAGC a gan GTAGC. | 25 | 26 | ↑ +1 |
| Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref, Tîm Cymorth Cymunedol a larymau mwg/ymyriadau eraill a roddwyd | 12 | 19 | ↑ +7 |
| Gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y Ffenics a Lleihau Llosgi Bwriadol | 11 | 1 | ↓ -10 |
| Cymorth elusennol, gan gynnwys rhoddion nosweithiau tân gwyllt cymunedol | 9 | 34 | ↑ +25 |
| Digwyddiadau ac ymarferion ar yr ochr weithredol | 29 | 37 | ↑ +8 |
| Ymddygiad | 6 | 12 | ↑ +6 |
| **Cyfanswm** | 92 | 129 | ↑ +37 |
| **Nifer gyfartalog y gwerthfawrogiadau a ddaeth i law yn y 3 blynedd ddiwethaf** | | | 94 |
| **Perfformiad 2016/17 o gymharu â'r cyfartaledd dros 3 blynedd** | | | ↑ **+** 37% |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant tymor hir GTAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |
| Cyfreithiol | Cafodd yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ei hystyried wrth ddelio â'r cwynion a ddaeth i law. |
| Staffio | Mae cwynion sy'n cael eu cadarnhau yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd datblygu i aelodau unigol o'r staff a'r sefydliad cyfan. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Rhoddir ystyriaeth i'r holl nodweddion gwarchodedig, gan ymdrin â gwerthfawrogiadau/ cwynion yn ddwyieithog neu yn unol â dymuniad yr unigolyn. |
| Risgiau | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Rhif adroddiad | **FRA2017/06/10** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol, sef 19 Mehefin 2017.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol, sef 19 Mehefin 2017.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r aelodau:

(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol, i'w weithredu ar 19 Mehefin 2017;

(ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2017/18 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

5 Ymestynnwyd cylch gwaith y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur bu i'r Panel lunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

## GWYBODAETH

6 Mae'r adroddiad yn cydnabod y bu newid sylweddol yng nghynigion Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â strwythur presennol llywodraeth leol hyd nes y daw'r newid. Nodwyd y bydd y Panel, maes o law, yn edrych ar y goblygiadau posibl i gydnabyddiaeth ariannol, a bydd yn ymgynghori â'r cynghorau yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol.

7 Mae'r Panel wedi penderfynu gwneud cynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau, y cynnydd cyntaf ers tair blynedd, felly bydd cynnydd i aelodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

8 Ar gyfer awdurdodau tân ac achub mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

- dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fod yn £1,715 (i fyny o £1,700)
- dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fod yn £10,415 (i fyny o £10,400)
- gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA lle ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. Dylid talu hwn ar lefel o £5,415 (i fyny o £5,400)
- mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer ATAau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol
- ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan ATA
- telir uwch gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus
- ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo.

9 Mae Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Gadeirydd y Panel Gweithredol hefyd, a gall hawlio un cyflog yn unig. Er mwyn gwahaniaethu rhwng 'prif bwyllgor' a 'phwyllgor arall', argymhellir ei seilio ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir bob blwyddyn. Mae'r Panel Gweithredol yn cwrdd bum gwaith y flwyddyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Felly, argymhellir bod yr Awdurdod yn parhau â'i benderfyniad blaenorol, sef bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei dalu dan y categori "cadeirydd pwyllgor arall".

10 Mae'r ffi ddyddiol sy'n cael ei thalu i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn aros yr un fath; sef ffi ddyddiol wedi'i chapio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y gyfradd ganlynol:

- £256 o ffi ddyddiol (£128 am hanner diwrnod) i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau
- £198 o ffi ddyddiol (£99 am hanner diwrnod) i aelod Annibynnol.

**Lwfans Teithio, Cynhaliaeth a Gofal**

11 Ni chafwyd unrhyw newidiadau i lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal, sy'n unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru.

- **Cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast, lle nad yw'n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos |

- **Llety**

| | |
|---|---|
| £200 y nos | Llundain |
| £95 y nos | Ardaloedd eraill |
| £30 y nos | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

- Mae'r gyfradd **Milltiroedd** yn aros ar 45c y filltir.

12 Mae Penderfyniad 43 yn yr adroddiad yn nodi:

Mae'n rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.

13 Mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i annog y defnydd o'r lwfans gofal ac yn nodi ei fod yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn gysylltiedig â chyhoeddi'r treuliau dilys hyn ac adlewyrchir hyn yn y dewisiadau ar gyfer cyhoeddi fel a nodir yn yr adroddiad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd cynnydd o £15 yn y cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau ATAau o ddyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr awdurdod, felly mae'r cyflog sylfaenol blynyddol yn £1,715.<br>Hefyd, bydd cynnydd o £15 yng nghyflog Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA, felly mae'r cyflog blynyddol yn £10,415 a £5,415 yn eu trefn. |
| Cyfreithiol | Mae Rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r trefniadau ar gyfer talu Aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.<br>Yn unol â Rheoliadau'r Panel a'r canllawiau sydd yn Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2017/18, rhaid i'r Awdurdod lunio a chynnal Rhestr o Gydnabyddiaethau Aelodau, sy'n rhoi manylion y taliadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn unol â'r lefelau cydnabyddiaeth a lwfansau a benderfynir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol terfynol neu Adroddiadau Atodol.<br>Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr a wneir yn ystod blwyddyn y cyngor gael eu cyfleu i'r Panel cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Nid ystyrir bod angen ymdrin ag unrhyw faterion, oherwydd mae'r argymhellion yr un mor gymwys i'r holl Aelodau ni waeth am y nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Rhif adroddiad | **FRA2017/06/11** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx (01745 535286)** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2016/17** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r aelodau, sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r adroddiad blynyddol yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r aelodau, sy'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod 2016/17.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo adroddiad blynyddol 2016-17 ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Cyflwynwyd y trefniadau llywodraethu newydd ar bensiynau o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf yn darparu trefniadau llywodraethu mwy pendant ynghyd â rolau penodol diffiniedig, rhagor o wybodaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi'n gyson, ac ymarferion gweinyddu sydd yn unol â'r rhai yn y sector breifat.

6 Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sy'n ymwneud â chreu a gweithredu'n barhaus y pensiynau lleol, i rym ar 1 Ebrill 2015. Roedd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gytuno i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

7 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rheolwr cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn gwella trylowyder, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei ariannu o gyllideb gyfredol Gwasanaethau'r Aelodau |
| Cyfreithiol | Mae'r gofynion llywodraethu newydd sy'n ymwneud â phensiynau wedi cael eu cyflyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Nid ystyrir bod angen ymdrin ag unrhyw faterion, oherwydd mae'r argymhellion yr un mor gymwys i'r holl Aelodau ni waeth am y nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risg | Mae angen i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a ddaeth gan y Rheoleiddiwr Pensiynau am y trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

**Atodiad 1**

# Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol 2016-17

## Cynnwys


| | | Tud. |
|---|---|---|
| 1. | Cefndir | 3 |
| 2. | Rôl a Chylch Gwaith | 4 |
| 3. | Cyfansoddiad ac Aelodaeth | 4 |
| 4. | Cod Ymddygiad a Pholisi Gwrthdaro | 5 |
| 5. | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 6 |
| 6. | Hysbysu'r Pensiynau ynghylch achosion o dorri'r gyfraith | 7 |
| 7. | Rhaglen Waith 2016-17 | 8 |
| 8. | Rhaglen Waith 2017-18 | 9 |
| 9. | Y Swyddogion Allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol | 9 |

## 1.0 Cefndir

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol. Yn achos Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, rôl y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- y rheoliadau perthnasol;
- unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun; a'r
- gofynion a orfodir gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun a
- sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Mae disgwyl i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gwblhau a helaethu'r trefniadau presennol sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r cynllun. Nid yw'n cymryd lle'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, ei nod yw gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion pan fyddant yn gweithredu fel rheolwr y cynllun.

Daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sy'n ymwneud â chreu a gweithredu'n barhaus y pensiwn lleol, i rym ar 1 Ebrill 2015. Roedd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gytuno i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'sefydlu' yw bod yn rhaid i'r Awdurdod, fel Rheolwr y Cynllun, gymeradwyo creu'r Bwrdd a chytuno ar ei drefn a'i gylch gorchwyl yn unol â'i gyfansoddiad. Nid oedd yn golygu bod yn rhaid i Fwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân fod yn gwbl weithredol erbyn y dyddiad hwnnw.

Fodd bynnag, disgwylid y dylai pob Bwrdd Pensiwn Lleol fod yn weithredol o fewn cyfnod rhesymol ar ôl 1 Ebrill 2015, ac yn bendant erbyn diwedd mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Sefydlwyd Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Gogledd Cymru gan yr Awdurdod ar 20 Ebrill 2015 pan gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf.

## 2.0 Rôl a Chylch Gwaith

Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod fel Rheolwr Cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon a'i fod, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol. Mae'r Bwrdd yn gwneud hyn drwy adolygu'r polisïau a'r arferion y mae'r Awdurdod wedi eu mabwysiadau, yn eu gwirio yn erbyn y rheoliadau cymwys, yn ogystal ag yn eu cymharu ag achosion o arferion da mewn lleoedd eraill. Mae'n rôl fymryn yn wahanol i'r un sydd gan y Bwrdd (ar wahân) sy'n gyfrifol am oruchwylio trefniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol oherwydd mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun nad yw'n cael ei ariannu ac nid oes agwedd fuddsoddi iddo.

## 3.0 Cyfansoddiad ac Aelodaeth

Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cymeradwyo ac adolygu cylch gorchwyl Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn flynyddol; ceir copi o'r ddogfen drwy'r ddolen a ganlyn:

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1257/cylch-gwaith-bwrdd-pensiynau.pdf

Er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioliadol, rhaid i bob Bwrdd Pensiwn Lleol gynnwys nifer gyfartal o gynrychiolwyr i'r cyflogwyr ac i'r aelodau, a rhaid cael pedwar o leiaf. Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2015, cytunodd yr Awdurdod i sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gyda thri chynrychiolydd i'r cyflogwr a thri chynrychiolydd i aelodau'r cynllun. Tair blynedd yw cyfnod penodiad, neu hyd nes nad ydynt yn gymwys mwyach i fod yn aelodau.

**Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol 2015-2017**

Cyflogwr:
Pedwar aelod o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sef Y Cyng. Brian Dunn, Y Cyng. Delyth Macrae, Y Cyng. W Tudor Owen, Y Cyng. J Rodney Skelland. Clerc i'r Awdurdod, Trysorydd yr Awdurdod.

Rheolwr y Cynllun:

Dau gynrychiolydd o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag ATAGC: Undeb yr FBU - Shane Price a Sandra Williams; Cymdeithas y Swyddogion Tân - Geraint Hughes a Paul Scott; Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân - Richard Fairhead a Ruth Simmons.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Bydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd y Cyng. W Tudor Owen yn Gadeirydd am y cyfnod cyntaf o ddwy flynedd, sef 2015-2017. Enwebwyd y Cadeirydd i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Cyfarfu'r Bwrdd ddwywaith yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

## 4.0 Cod Ymddygiad a Pholisi Gwrthdaro

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod, fel Rheolwr y Cynllun, baratoi a chymeradwyo cod ymddygiad i'w fabwysiadu gan y Bwrdd. Rhaid i'r cod hwn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan yr aelodau, gan ymgorffori'r 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' (a elwir yn Egwyddorion Nolan). Mae aelodau etholedig a chyfetholedig yr Awdurdod yn cael eu llywodraethu gan y cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr. Mae'r cod hwn yn ofynnol i bob awdurdod lleol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, ac mae'n nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan unigolion yn rhinwedd bod yn gynghorwyr neu'n aelodau cyfetholedig. Hefyd, mae gofyniad cyfreithiol ar gynghorwyr i ddatgelu, ar gofrestr a gedwir gan swyddog monitro'r awdurdod, rai buddiannau ariannol fel y diffinnir mewn rheoliadau a wnaed dan Ddeddf 2011. Mae'r ddau ofyniad yn gymwys i unrhyw aelod o Fwrdd Pensiwn Lleol sydd hefyd yn gynghorydd ar awdurdod lleol. Nid yw'r gofynion yn gymwys i aelodau o Fwrdd Pensiwn Lleol nad ydynt yn Gynghorwyr oni bai eu bod wedi cael eu mabwysiadu'n benodol mewn cylch gorchwyl neu ddogfen bolisi arall i fod yn gymwys i aelodau eraill o'r Bwrdd. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2015, fe wnaeth Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gytuno'n ffurfiol i fabwysiadu Cod Ymddygiad y Awdurdod ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd.

Heblaw am ddarpariaethau Cod Ymddygiad yr Awdurdod, ac ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, y diffiniad o 'wrthdaro rhwng buddiannau' yn adran 5(5) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yw buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o niweidio gallu unigolyn i gyflawni swyddogaeth fel aelod o Fwrdd Pensiwn Lleol (er nad yw hynny'n cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n digwydd oherwydd bod yr unigolyn hwnnw'n aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân). Argymhellodd y Rheoleiddiwr Pensiynau fod yr holl awdurdodau gweinyddu'n sefydlu Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau ar gyfer eu Bwrdd Pensiwn Lleol newydd. Cytunodd Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn briodol ar Bolisi Gwrthdaro manwl yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2015. Ceir copi o'r polisi yn y fan yma:

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337270/conflict-of-interest-policy-adopted-301115.pdf

Ni ddisgwylir unrhyw achosion mawr o wrthdaro rhwng buddiannau, yn enwedig gan nad oes unrhyw agwedd fuddsoddi i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Fodd bynnag, bydd y swyddogion yn cymryd camau i ganfod, monitro a rheoli gwrthdaro yn unol â'r polisi.

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Yn unol ag Adran 248A o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i bob unigolyn sy'n aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod yn gyfarwydd â:

- rheolau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân; ac
- unrhyw ddogfen sy'n cofnodi polisi ynglŷn â gweinyddiaeth y Cynllun sy'n cael ei fabwysiadu am y tro mewn perthynas â'r Gronfa.

Rhaid i bob unigolyn fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith mewn perthynas â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a allai gael eu rhagnodi.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl, a lle bo modd rhaid iddo gefnogi holl aelodau'r Bwrdd i gael yr hyfforddiant hwnnw.
Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gadw cofnodion priodol o weithgareddau dysgu yr aelodau unigol, a'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn gymorth i'r aelodau ddangos eu bod yn cydymffurfio, os oes angen, â'r gofyniad a sut y maent wedi lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau gwybodaeth.

Mae'n ofyniad statudol i gynnwys manylion yr hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen yr wybodaeth hon o bryd i'w gilydd ar asiantaethau eraill, megis y Rheoleiddiwr Pensiynau. Ceir amserlen isod o'r hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol:

| Dyddiad | Hyfforddiant | Yn bresennol |
|---|---|---|
| 20/04/16 | Gwrthdaro rhwng Buddiannau – Modiwl Hyfforddiant y Rheoleiddiwr Pensiynau<br><br>Cynllun Pensiwn wedi'i addasu ar gyfer y system RDS | Cynrychiolwyr Cyflogwr –<br>Cyng W T Owen (Cadeirydd);<br>Cyng B Dunn;<br>Cyng J Rodney Skelland.<br>Ymgynghorwyr –<br>D Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân/Trysorydd dros dro;<br>J Brown, Pennaeth Cyllid.<br>Cynrychiolwyr gweithwyr -<br>R Fairhead a R Simmons, PSTC, Cymdeithas Prif Swyddogion Tân;<br>G B Hughes a P Scott, Cymdeithas Swyddogion Tân;<br>S Williams, Undeb y Frigâd Dân. |
| 08/11/16 | Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol - Modiwl Hyfforddiant y Rheoleiddiwr Pensiynau<br><br>Norman v Cheshire | Cynrychiolwyr Cyflogwr –<br>Cyng W T Owen (Cadeirydd);<br>Cyng B Dunn, Cyng D Macrae;<br>Cyng J Rodney Skelland.<br>Ymgynghorwyr – D Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân/Trysorydd dros dro;<br>J Brown, Pennaeth Cyllid.<br>G B Hughes a P Scott, Cymdeithas Swyddogion Tân. |

## 6.0 Polisi Hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau am achosion o Dorri'r Gyfraith

Yn unol ag adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004, rhaid i rai unigolion hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol pan fo gan y unigolion hynny achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- ni fu neu nid oes cydymffurfiaeth â dyletswydd sy'n berthnasol i weinyddu'r LGPS, ac sy'n cael ei gorfodi gan ddeddfiad neu reol y gyfraith; ac
- mae methu â chydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn gymwys yn uniongyrchol i bob unigolyn sy'n aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Felly, rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gael trefniadau effeithiol yn eu lle i gyflawni ei ddyletswydd i hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith.

Yn ei sesiwn ymwybyddiaeth ym mis Tachwedd 2014, cafodd Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân wybod, yn unol â Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau – rhif 14 (Llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus), fod canllawiau ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau yn nodi'r mecanwaith ar gyfer rhoi hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith. Mae'r canllawiau'n sicrhau bod y rhai sydd â chyfrifoldeb dros roi gwybod am achosion dorri'r gyfraith yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, a hynny drwy ddadansoddi sefyllfaoedd yn effeithiol er mwyn penderfynu ar sail gwybodaeth a yw'r gyfraith wedi cael ei thorri.

http://www.thepensionsregulator.gov.uk/codes/code-reporting-breaches.aspx

## 7.0 Rhaglen Waith 2016-17

Cyfarfu'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddwywaith yn 2016-17, a hynny ar 20 Ebrill 2016 a 8 Tachwedd 2016. Fel gofyniad statudol, mae aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi derbyn diweddariadau deddfwriaethol rheolaidd.

### Cyfarfod y Bwrdd – 20 Ebrill 2016

Adolygu'r Cylch Gorchwyl, ac ystyried Adroddiad Blynyddol 2015/16 a chytuno

Datganiad o Ddiddordeb
Modiwl Gwrthdaro rhwng Buddiannau
Y diweddaraf am effeithiolrwydd cyfathrebu
Hyfforddiant – cynllun pensiwn wedi'i addasu ar gyfer y system RDS

### Cyfarfod y Bwrdd – 8 Tachwedd 2016

Datganiad o Ddiddordeb
Mae'r Bwrdd wedi adolygu a chytuno ar y Cylch Gorchwyl ac Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2015-16.
Dilynodd y modiwl hyfforddiant a ddarparwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynglŷn â Risg a Rheolaeth Fewnol
Cyflwyniad ar achos llys 'Norman v Cheshire'

Cyflwyno'r diweddaraf ar bensiynau a'r diweddaraf ar Fwrdd Cynghori'r Cynllun

Ceir rhagor o fanylion yn agendâu a chofnodion y cyfarfodydd uchod o'r Bwrdd, a gellir eu gweld drwy'r ddolen a ganlyn:

http://www.nwales-fireservice.org.uk/fire-and-rescue-authority/local-pension-board/?lang=cy

## 8.0 Rhaglen Waith 2017-18

Mae Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith a gaiff ei hystyried ymhob cyfarfod. A'r Bwrdd nawr wedi cael ei sefydlu, a'r aelodau wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub fel y bo'r angen.

Nodir Rhaglen Waith 2017-18 isod:

Adolygu'r Cylch Gorchwyl a chytuno ar Adroddiad Blynyddol 2016/17
Sesiynau hyfforddiant sy'n mynd ymlaen – Hysbysu ynghylch torri'r Gyfraith a Chynnal data cywir am aelodau
Polisïau disgresiynol
Cyflwyniadau ar y materion pensiwn presennol (fel y byddant yn codi)

Mae'r rhaglen waith ar gyfer 2017-18 wedi cael ei neilltuo ar y sail y gallai'r cynrychiolwyr newid yn dilyn yr etholiadau lleol. O ran unrhyw aelodau newydd ar y Bwrdd, mae Rheolwr y Cynllun yn cydnabod bod aelodau newydd eu penodi i'r bwrdd pensiwn yn debygol o fod angen rhagor o gymorth a hyfforddiant yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf. Felly, bydd Rheolwr y Cynllun yn darparu sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol ar y trefniadau llywodraethu newydd.

## 9.0 Y Swyddogion Allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd Pensiwn Lleol

Dirprwy Brif Swyddog Tân – Dawn Docx
Pennaeth Cyllid - Julie Brown